# Datganiad o Fwriad ar gyfer Cynllun ECO4 a Chynllun Insiwleiddio Prydain

**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg Cynllun ECO4 ac Insiwleiddio Prydain Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Dyddiad Cyhoeddi: 23/08/23**

**Rhif Fersiwn: F.1**

**Cyhoeddiad ar y wefan: www.conwy.gov.uk**

**This document is also available in English.**

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (EC04) a Chynllun Insiwleiddio Prydain sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2026.

Fe fydd cynllun EC04 yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd ag incwm isel ac aelwydydd diamddiffyn. Fe fydd y cynllun yn gwella'r cartrefi sydd leiaf effeithlon o ran ynni gan helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net y Llywodraeth. Bydd Cynllun Insiwleiddio Prydain yn cefnogi'r cynllun ECO4 i ddiwallu'r targedau mesurau sengl gan fwyaf i ystod ehangach o aelwydydd.

Mae'r dull hyblyg ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALlau) i ddynodi aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac aelwydydd diamddiffyn a all elwa o fesurau arbed ynni a gwres yn cael ei adnabod fel "ECO4 Flex" a "Great British Insulation Scheme Flex".

Wedi'u Disodli

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad hwn (DoF), ar y **23/08/23** i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a nodwyd yn glynu at o leiaf un o'r pedwar llwybr sydd ar gael a amlinellir isod. Mae modd defnyddio'r blychau ticio i nodi pa lwybrau y mae'r cyngor yn eu defnyddio:

☒**Llwybr 1:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sydd ag incwm o lai na £31,000. Mae'r terfyn yn berthnasol waeth beth fo maint, cyfansoddiad neu ranbarth yr eiddo.

☒**Llwybr 2:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsis canlynol:

| |
|---|
| **Procsi 1)** Cartrefi yn Lloegr mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1-3 (LSOA)[1], neu gartrefi yng Nghymru o dan ddarpariaeth LSOA 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[2], neu gartrefi yn yr Alban o fewn "parth data" 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban 2020[3]* |
| **Procsi 2)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ar sail incwm isel. |
| **Procsi 3)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan yr oerni o dan Ganllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) NG6: Argymhelliad 2, am reswm heblaw eu hincwm isel[4]* |
| **Procsi 4)** Mae plentyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn sgil incwm isel. [5] |
| **Procsi 5)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu cefnogi o dan gynllun a sefydlwyd gan yr ALl / DA sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio o fewn eu Datganiad o Fwriad ac a sefydlwyd i gefnogi pobl sy'n byw ar incwm isel ac yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan oerni o dan Ganllaw NG6 NICE. |
| **Procsi 6)** Aelwyd a gyfeiriwyd at yr ALl am gefnogaeth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban, gan eu bod wedi eu nodi fel aelwyd sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau trydan a/neu nwy. |

[1] Cyhoeddwyd yn https://www.gov.uk/government/statistics/english-indices-of-deprivation-2019. Mae'r dengraddau wedi'u cyhoeddi yn "File 7: all ranks, deciles and scored for the indices of deprivation, and population denominators".
[2] Cyhoeddwyd yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019
[3] 2020v2. Cyhoeddwyd yn http://www.gov.scot/publications/scottish-index-of-multiple-deprivation-2020v2-ranks
[4] https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations#recommendation-2-ensure-there-is-a-singlepointofcontact-health-and-housing-referral-service-for
[5] O dan adran 512ZB(4) Deddf Addysg 1996 neu adran 53 o Ddeddf Addysg (yr Alban) 1980

Wedi'u Disodli

**Procsi 7)** Aelwydydd a nodwyd drwy ddata dyledwyr cyflenwyr ynni. Mae’r llwybr hwn yn galluogi cyflenwyr, sydd â rhwymedigaeth, i ddefnyddio eu data dyledion eu hunain i nodi naill ai aelwydydd heb fesurydd rhagdalu (dim-PPM) neu aelwydydd â mesurydd rhagdalu (PPM)*.

a. **a) Cwsmeriaid heb PPM:** Mae’r rhain yn gwsmeriaid sydd wedi bod mewn dyled am dros 13 wythnos ar y diwrnod y llunnir eu datganiad, ac mae ganddynt gynllun ad-dalu gyda’u cyflenwyr ynni, neu’n ad-dalu eu dyledion tanwydd drwy ddidyniadau trydydd parti.

b. **b) Cwsmeriaid PPM:** Gall cyflenwyr nodi aelwydydd PPM sydd:
   - naill ai wedi datgysylltu eu hunain neu wedi derbyn credyd Dewisol / Cyfeillgar gan y cyflenwr yn y 13 wythnos diwethaf ar y diwrnod y llunnir eu datganiad; neu
   - sydd â chynllun ad-dalu dyled gyda’u cyflenwr ynni; neu
   - sy’n ad-dalu eu dyledion tanwydd drwy ddidyniadau trydydd parti. *

* Noder na all procsis 1 a 3 gael eu defnyddio gyda’i gilydd.

* Ni ellir defnyddio procsi 7 mewn cyfuniad â phrocsi 5 neu 6.

☒**Llwybr 3:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sydd wedi'u nodi naill ai gan unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, Bwrdd Iechyd yr Alban, Bwrdd Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG yn aelwyd ddiamddiffyn, sydd â phreswylydd y gallai ei gyflwr iechyd gael ei effeithio ymhellach drwy fyw mewn cartref oer. Mae’n rhaid i’r cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimiwnedd, neu’n ymwneud ag anawsterau symud.

☒**Llwybr 4:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat a gaiff eu hatgyfeirio o dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac Awdurdodau Lleol gyflwyno cais i’r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net lle maent wedi nodi dulliau newydd o ganfod aelwydydd incwm isel a diamddiffyn. Mae angen i geisiadau ddangos nifer o ffactorau, gan gynnwys bod y fethodoleg a gynigir yn fwy effeithiol i nodi aelwydydd â thlodi tanwydd na’r meini prawf a nodir o dan Lwybrau 1 a 2.

Wedi'i Disodli

## Cymhwysedd y cynllun

Fe ddylai'r holl aelwydydd a all fod yn gymwys ymgeisio drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu un o'u gosodwyr ECO / Cynllun Insiwleiddio Prydain a gymeradwywyd, os oes rhestr o osodwyr cymeradwy ar gael, i weld a allant naill ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu ar gyfer cymhwysedd o dan unrhyw raglen berthnasol arall.

Bydd swyddog yr ALl (nid trydydd parti sy'n gweithio ar ran yr ALl) yn gyfrifol am wirio a dilysu tystiolaeth, a chyflwyno datganiadau. Ar gyfer unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r Datganiad o Fwriad hwn, cysylltwch â:

**Enw:** Tîm ECO Flex

**E-bost:** ecoflex@conwy.gov.uk

Wedi'u Disodli

# Llofnod Prif Swyddog Gweithredol neu unigolyn cyfrifol dynodedig

Fe fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweinyddu cynllun ECO4 Flex yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2022 (Gorchymyn ECO4).

Fe fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweinyddu cynllun Flex Insiwleiddio Prydain yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2023 (Gorchymyn ECO4A).

Bydd Prif Swyddog Gweithredol / unigolyn cyfrifol dynodedig y Cyngor yn goruchwylio'r broses o ddynodi aelwydydd cymwys o dan Gynllun ECO Flex a Chynllun Flex Insiwleiddio Prydain. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Ofgem am aelwydydd y cyflwynir datganiadau ar eu cyfer drwy'r templed hysbysu datganiad.

Bydd yr holl ddata personol sy'n cael ei gasglu neu ei brosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at ddibenion ECO4 Flex neu Gynllun Flex Insiwleiddio Prydain yn cael ei brosesu a'i storio yn unol â: rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Ddeddf GDPR a Diogelu Data'r DU 2018, polisi diogelu data'r cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau eraill, a chanllawiau Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

**Llofnod:**

**Enw:** Peter Brown – Pennaeth Rheoleiddio a Thai

**Teitl Swydd:** Unigolyn cyfrifol dynodedig

**Dyddiad y Llofnod:** 23/08/23

Wedi'u Disodli

# Datganiad o Fwriad ar gyfer Cynllun ECO4 a Chynllun Insiwleiddio Prydain

**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg Cynllun ECO4 ac Insiwleiddio Prydain Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Dyddiad Cyhoeddi: 17/01/24**

**Rhif Fersiwn: F.2**

**Cyhoeddiad ar y wefan: [www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)**

**This document is also available in English.**

WEDI'U DISODLI

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (EC04) a Chynllun Insiwleiddio Prydain sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2026.

Fe fydd cynllun EC04 yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd ag incwm isel ac aelwydydd diamddiffyn. Fe fydd y cynllun yn gwella'r cartrefi sydd leiaf effeithlon o ran ynni gan helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net y Llywodraeth. Bydd Cynllun Insiwleiddio Prydain yn cefnogi'r cynllun ECO4 i ddiwallu'r targedau mesurau sengl gan fwyaf i ystod ehangach o aelwydydd.

Mae'r dull hyblyg ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALlau) i ddynodi aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac aelwydydd diamddiffyn a all elwa o fesurau arbed ynni a gwres yn cael ei adnabod fel "ECO4 Flex" a "Great British Insulation Scheme Flex".

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad hwn (DoF), ar y **23/08/23** i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a nodwyd yn glynu at o leiaf un o'r pedwar llwybr sydd ar gael a amlinellir isod. Mae modd defnyddio'r blychau ticio i nodi pa lwybrau y mae'r cyngor yn eu defnyddio:

☒**Llwybr 1:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sydd ag incwm o lai na £31,000. Mae'r terfyn yn berthnasol waeth beth fo maint, cyfansoddiad neu ranbarth yr eiddo.

☒**Llwybr 2:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsis canlynol:

| |
|---|
| **Procsi 1)** Cartrefi yn Lloegr mewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1-3 (LSOA)[1], neu gartrefi yng Nghymru o dan ddarpariaeth LSOA 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[2], neu gartrefi yn yr Alban o fewn "parth data" 1-3 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban 2020[3]* |
| **Procsi 2)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ar sail incwm isel. |
| **Procsi 3)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan yr oerni o dan Ganllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) NG6: Argymhelliad 2, am reswm heblaw eu hincwm isel[4]* |
| **Procsi 4)** Mae plentyn sy'n byw yn yr eiddo yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn sgil incwm isel. [5] |
| **Procsi 5)** Mae unigolyn sy'n byw yn yr eiddo yn cael eu cefnogi o dan gynllun a sefydlwyd gan yr ALl / DA sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio o fewn eu Datganiad o Fwriad ac a sefydlwyd i gefnogi pobl sy'n byw ar incwm isel ac yn cael eu hystyried yn agored i niwed gan oerni o dan Ganllaw NG6 NICE. *[Nid yw'r llwybr hwn yn cael ei ddefnyddio gyda CBSC ar hyn o bryd.]* |
| **Procsi 6)** Aelwyd a gyfeiriwyd at yr ALl am gefnogaeth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban, gan eu bod wedi eu nodi fel aelwyd sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau trydan a/neu nwy. |

WEDI'U DISODLI

[1] Cyhoeddwyd yn https://www.gov.uk/government/statistics/english-indices-of-deprivation-2019. Mae'r dengraddau wedi'u cyhoeddi yn "File 7: all ranks, deciles and scored for the indices of deprivation, and population denominators".
[2] Cyhoeddwyd yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019
[3] 2020v2. Cyhoeddwyd yn http://www.gov.scot/publications/scottish-index-of-multiple-deprivation-2020v2-ranks
[4] https://www.nice.org.uk/guidance/ng6/chapter/1-Recommendations#recommendation-2-ensure-there-is-a-singlepointofcontact-health-and-housing-referral-service-for
[5] O dan adran 512ZB(4) Deddf Addysg 1996 neu adran 53 o Ddeddf Addysg (yr Alban) 1980

**Procsi 7)** Aelwydydd a nodwyd drwy ddata dyledwyr cyflenwyr ynni. Mae'r llwybr hwn yn galluogi cyflenwyr, sydd â rhwymedigaeth, i ddefnyddio eu data dyledion eu hunain i nodi naill ai aelwydydd heb fesurydd rhagdalu (dim-PPM) neu aelwydydd â mesurydd rhagdalu (PPM)*.

a. **a) Cwsmeriaid heb PPM:** Mae'r rhain yn gwsmeriaid sydd wedi bod mewn dyled am dros 13 wythnos ar y diwrnod y llunnir eu datganiad, ac mae ganddynt gynllun ad-dalu gyda'u cyflenwyr ynni, neu'n ad-dalu eu dyledion tanwydd drwy ddidyniadau trydydd parti.

b. **b) Cwsmeriaid PPM:** Gall cyflenwyr nodi aelwydydd PPM sydd:
   - naill ai wedi datgysylltu eu hunain neu wedi derbyn credyd Dewisol / Cyfeillgar gan y cyflenwr yn y 13 wythnos diwethaf ar y diwrnod y llunnir eu datganiad; neu
   - sydd â chynllun ad-dalu dyled gyda'u cyflenwr ynni; neu
   - sy'n ad-dalu eu dyledion tanwydd drwy ddidyniadau trydydd parti. *

* Noder na all procsis 1 a 3 gael eu defnyddio gyda'i gilydd.

* Ni ellir defnyddio procsi 7 mewn cyfuniad â phrocsi 5 neu 6.

☒**Llwybr 3:** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat sydd wedi'u nodi naill ai gan unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Ymarferwyr Cyffredinol, Bwrdd Iechyd yr Alban, Bwrdd Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG yn aelwyd ddiamddiffyn, sydd â phreswylydd y gallai ei gyflwr iechyd gael ei effeithio ymhellach drwy fyw mewn cartref oer. Mae'n rhaid i'r cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimiwnedd, neu'n ymwneud ag anawsterau symud.

☒**Llwybr 4 (cymwys i ECO4 Flex yn unig):** Aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd sy'n cael eu rhentu'n breifat a gaiff eu hatgyfeirio o dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac Awdurdodau Lleol gyflwyno cais i'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net lle maent wedi nodi dulliau newydd o ganfod aelwydydd incwm isel a diamddiffyn. Mae angen i geisiadau ddangos nifer o ffactorau, gan gynnwys bod y fethodoleg a gynigir yn fwy effeithiol i nodi aelwydydd â thlodi tanwydd na'r meini prawf a nodir o dan Lwybrau 1 a 2.

WEDI'U DISODLI

## Cymhwysedd y cynllun

Fe ddylai'r holl aelwydydd a all fod yn gymwys ymgeisio drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu un o'u gosodwyr ECO / Cynllun Insiwleiddio Prydain a gymeradwywyd, os oes rhestr o osodwyr cymeradwy ar gael, i weld a allant naill ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu ar gyfer cymhwysedd o dan unrhyw raglen berthnasol arall.

Bydd swyddog yr ALl (nid trydydd parti sy'n gweithio ar ran yr ALl) yn gyfrifol am wirio a dilysu tystiolaeth, a chyflwyno datganiadau. Ar gyfer unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r Datganiad o Fwriad hwn, cysylltwch â:

**Enw:** Tîm ECO Flex

**E-bost:** ecoflex@conwy.gov.uk

WEDI'U DISODLI

# Llofnod Prif Swyddog Gweithredol neu unigolyn cyfrifol dynodedig

Fe fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweinyddu cynllun ECO4 Flex yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2022 (Gorchymyn ECO4).

Fe fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweinyddu cynllun Flex Insiwleiddio Prydain yn unol â Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2023 (Gorchymyn ECO4A).

Bydd Prif Swyddog Gweithredol / unigolyn cyfrifol dynodedig y Cyngor yn goruchwylio'r broses o ddynodi aelwydydd cymwys o dan Gynllun ECO Flex a Chynllun Flex Insiwleiddio Prydain. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Ofgem am aelwydydd y cyflwynir datganiadau ar eu cyfer drwy'r templed hysbysu datganiad.

Bydd yr holl ddata personol sy'n cael ei gasglu neu ei brosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at ddibenion ECO4 Flex neu Gynllun Flex Insiwleiddio Prydain yn cael ei brosesu a'i storio yn unol â: rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Ddeddf GDPR a Diogelu Data'r DU 2018, polisi diogelu data'r cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau eraill, a chanllawiau Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

**Llofnod:**

**Enw:** Peter Brown – Pennaeth Rheoleiddio a Thai

**Teitl Swydd:** Unigolyn cyfrifol dynodedig

**Dyddiad y Llofnod:** 17/01/24

WEDI'I DISODLI